Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

SWYDDOGOL

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Y Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynhadledd ACPO** |
| **Dyddiad:** | **16 Gorffennaf 2026** |
| **Amser:** | **1.30pm i 3.30pm** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | • Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn (CHTh)<br>• Y Prif Gwnstabl, Ifan Charles (PG)<br>• Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh), Carys Morgans<br>• Y Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harries (CC) |
| **Hefyd yn bresennol:** | • Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg, Teleri Williams (TW)*<br>• Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg, Ffion Williams (FfW)**<br>• Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu SCHTh, Gruff Ifan (GI)***<br>• Swyddog Staff, Ditectif Arolygydd Samantha Gregory (SG)<br>• Swyddog Cymorth Gweithredol SCHTh, Sophie Morgan (SM) |
| **Ymddiheuriadau** | • Prif Swyddog Cyllid SCHTh, Nicola Davies (PSC) |

* Roedd Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg, Teleri Williams (TW), yn bresennol ar gyfer eitem 3a ar yr agenda.
** Roedd Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg, Ffion Williams (FfW), yn bresennol ar gyfer eitem 3a ar yr agenda.
*** Roedd Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu SCHTh, Gruff Ifan (GI), yn bresennol ar gyfer eitem 3a ar yr agenda.

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd yr CHTh bawb i'r cyfarfod a chytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir.  Cafwyd ymddiheuriadau gan y Prif Swyddog Cyllid, Nicola Davies, oherwydd nad oedd yn bresennol am ei bod ar ei gwyliau blynyddol.

## 2. Y diweddaraf am gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Cam gweithredu | Crynodeb o'r cam gweithredu | Yr wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| PB 128 | Yr heddlu i ddarparu papur sicrwydd ynghylch recriwtio ym Mhowys – i fabwysiadu cynllun plismona sy'n canolbwyntio ar broblem i fynd i'r afael â'r her o ddenu ymgeiswyr swyddogion lleol dan hyfforddiant yng | Wedi'i gwblhau<br>Darparwyd memo gan yr heddlu. |

| | | |
|---|---|---|
| | ngogledd Powys, yn enwedig Sir Drefaldwyn. | |
| PB 129 | Yr heddlu i ymgysylltu ag arweinydd iechyd galwedigaethol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a rhwydweithio ag ef i ganfod sut mae'n mynd i'r afael â'r prinder o glinigwyr iechyd galwedigaethol yn y DU ac a oes unrhyw gyfleoedd i gydweithio. | Wedi'i gwblhau Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| PB 130 | Yr heddlu i gwblhau gwerthusiad o'r Grŵp Prosiectau a Chyllid. | Wedi'i gwblhau Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| PB 131 | Yr heddlu i gwblhau gwerthusiad ac adolygiad o'r rhaglen o hyfforddiant rheoli newid. | Wedi'i gwblhau Darparwyd memo gan yr heddlu. |
| PB 132 | Yr heddlu i archwilio buddion ailgyflwyno prosiect Llywio. | Ar y gweill Darparwyd memo gan yr heddlu. |

## 3. Pwnc ffocws: Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl

Rhoddodd y Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg a'r Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg gyflwyniad yn y Gymraeg i'r Bwrdd mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd gan yr CHTh i'r Prif Gwnstabl.

- Sut mae'r heddlu'n asesu ac yn sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael yn gyson yn y pwynt cyswllt cyntaf (gan gynnwys 101, adrodd ar-lein, yn y ddalfa, cymorth i ddioddefwyr, a phlismona bro)? Pa ddata perfformiad, archwiliadau neu adborth gan ddefnyddwyr a ddefnyddir i ddangos tystiolaeth o hyn?

- Pa gyfran o swyddogion a staff rheng flaen sy'n gallu darparu gwasanaethau yn y Gymraeg ar hyn o bryd, ar lefelau sylfaenol a rhugl? Pa dargedau, amserlenni, a strategaethau recriwtio neu hyfforddi sydd ar waith i gynyddu'r capasiti hwn?

- A yw'r heddlu wedi bod yn destun unrhyw ymchwiliadau, hysbysiadau cydymffurfio neu ymyriadau gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod y 12 mis diwethaf? Os felly, beth oedd y canfyddiadau allweddol, a pha gynnydd mesuradwy a wnaed wrth fynd i'r afael â nhw?

Ar draws yr heddlu, mae 766 o unigolion wedi datgan eu bod yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg i Lefel 3+ ac mae hyn yn gyfateb i 33% o'r gweithlu cyffredinol.

Mae 32% o swyddogion, 35% o aelodau o staff a 31% o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu wedi datgan eu bod yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg hyd at Lefel 3+. Mae gwelliant wedi bod yn y ffordd y cofnodir sgiliau yn y Gymraeg, a dim ond nifer fach iawn o swyddogion ac aelodau o staff sydd heb ddatgan eu sgiliau eto. Gwnaed cais yn flaenorol i TG i gynnwys y Gymraeg fel rhan o nodwedd olrhain asedau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; fodd bynnag, gwrthodwyd hyn.

Mater a godir ac a drafodir yn aml yng nghyfarfodydd Iaith ar Waith yw nifer y staff y mae Lefel 0 yn berthnasol iddynt a sut y gellir rheoli hyn yn effeithiol.

Anfonwyd neges e-bost yn ddiweddar at yr holl staff a swyddogion y mae lefel 0 / dim lefel yn berthnasol iddynt, yn eu hatgoffa o'r gofyniad i gyflawni o leiaf Lefel 1. Cadarnhaodd nifer o ymatebion fod y broblem o leiaf yn rhannol oherwydd nad yw unigolion yn diweddaru eu lefelau ar myTrent ar ôl cwblhau cyrsiau. Mae hyn yn cael ei waethygu ymhellach gan y ffaith nad yw'r Proffil Datblygu ac Asesu a myTrent yn rhyngweithio â'i gilydd, sy'n golygu y gall unigolion fod yn diweddaru eu lefelau ar eu Proffil Datblygu ac Asesu yn flynyddol ond nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu'n gywir yn y ffigurau a gawn drwy myTrent.

Y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg oedd yn y Pencadlys.

Mae gwasgariad swyddogion sy'n siarad Cymraeg ar draws yr heddlu yn cynrychioli cymunedau lleol i raddau helaeth (yn ôl cyfrifiad 2021), ac mae ardaloedd megis Sir Benfro a Phowys â lefelau is o swyddogion sy'n siarad Cymraeg na Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Trafododd y Bwrdd waith parhaus hyfforddwr y Gymraeg a'r hyfforddiant mewnol ac allanol sydd ar gael i swyddogion a staff ynghylch y Gymraeg.

Mae gwaith yn parhau i greu ymarfer Hydra sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio'r iaith yn ogystal â chymhwyso'r safonau, a ddisgwylir ei lansio ar gyfer recriwtiaid newydd sy'n swyddogion a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ym mis Hydref. Bydd ymarferion yn amrywio a byddant yn cael eu teilwra i siaradwyr o bob lefel, er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan, cyfrannu, a dysgu o'r profiad hwn.

Mae data a pherfformiad Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu ac adrodd ar-lein yn cael eu monitro a'u trafod yn ystod cyfarfodydd Iaith ar Waith bob chwarter.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu wedi recriwtio 23 aelod newydd o staff ac mae wyth o'r rhain yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn

wedi codi nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu i 46, sef 38% o'r gweithlu o fewn y ganolfan.

Trafododd y Bwrdd nifer y galwadau a gafwyd gan Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu dros y 18 mis diwethaf yn y Gymraeg a'r Saesneg, a chyfradd y galwadau nas atebwyd. Mae Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu wedi diwygio eu pwysoliadau ar gyfer galwadau yn ddiweddar (y flaenoriaeth a roddir i giwiau galwadau gwahanol). Mae pob galwad 101 yn y Gymraeg (h.y. achosion newydd, ceisiadau am ddiweddariadau, a chyngor/arweiniad) bellach wedi cael pwyslais uwch na galwadau 101 yn Saesneg ac maent yn ail yn unig i alwadau 999. Mae hyn yn golygu bod unrhyw alwad ffôn a geir yn y Gymraeg yn cael ei hanfon at weithredwr dwyieithog cyn galwad Saesneg.

Mae'r hyfforddwr Cymraeg wrthi'n gweithio ar lunio pecyn hyfforddi ar gyfer atebwyr galwadau sy'n siarad Cymraeg, gan fod diffyg paratoi wrth ddelio â galwadau Cymraeg wedi cael ei nodi dro ar ôl tro fel problem i staff Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu, gan rwystro eu hyder i ateb y galwadau Cymraeg. Y gobaith yw y bydd hyn ar waith ar gyfer recriwtiaid mis Hydref.

O ran Cartref Ar-lein Sengl, rhwng 1 Ionawr a 21 Mehefin 2026, cwblhawyd 32 ffurflen yn y Gymraeg drwy'r wefan o'i gymharu ag 16,387 ffurflen yn Saesneg.

Bu 4,821 o ymweliadau â thudalen we Gymraeg yr heddlu, o'i gymharu â 412,182 o ymweliadau â'r dudalen Saesneg.

Ers mis Mehefin 2025, mae'r heddlu wedi cael dwy gŵyn gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Trafododd y Bwrdd y cwynion hyn a sut roedd yr heddlu wedi mynd i'r afael â'r pryderon a arweiniodd at y cwynion.

Cynhaliwyd yr archwiliad allanol diweddaraf o wasanaethau gan TIAA a fe'i cyhoeddwyd yn 2023. Asesiad cyffredinol y cwmni o'r heddlu oedd 'Sicrwydd Rhesymol'.

Dewiswyd sampl o ddeg safon i'w hadolygu ar draws dosbarthiadau Llunio Polisïau, Gweithredol, Darparu Gwasanaethau a Chadw Cofnodion o'r safonau. Cynhaliwyd profion ynghylch cydymffurfedd yr heddlu â'r safonau a ddewiswyd a darparwyd tystiolaeth i ddangos bod yr heddlu yn cydymffurfio â nhw. Ni nodwyd unrhyw broblemau.

Gwnaeth y Bwrdd drafod strategaeth Gymraeg bresennol yr heddlu, sydd ar waith rhwng 2024 a 2027, a rhoddodd yr heddlu'r wybodaeth ddiweddaraf iddo, sef ei fod wedi cyflawni'r nodau a amlinellwyd yn y strategaeth gyfredol.

Trafododd y Bwrdd yr angen i'r heddlu ddatblygu strategaeth Gymraeg newydd o 2027 ymlaen. Trafododd yr angen i'r strategaeth newydd gael ei chysylltu â fframwaith perfformiad i fesur llwyddiant ac i fapio ar draws y byrddau perthnasol o fewn yr heddlu i sicrhau goruchwyliaeth a chyflawniad. Awgrymodd yr CHTh y dylid lansio'r strategaeth Gymraeg newydd ar 1 Mawrth 2027 i gyd-fynd â Dydd Gŵyl Dewi.

**Cam gweithredu: Bydd yr heddlu yn datblygu strategaeth a fframwaith ar gyfer y Gymraeg ar gyfer 2027 ymlaen. Dylid mapio'r fframwaith perfformiad ar draws byrddau perthnasol i gefnogi'r ddarpariaeth. Bydd hyn yn cael ei arwain gan y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol.**

## 4. I'w nodi

### a) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Gwnstabl

Darparwyd diweddariad gan y Prif Gwnstabl i'r Bwrdd yn manylu ar ddigwyddiadau a gweithrediadau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf. Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am waith plismona da, gan gynnwys y digwyddiadau mawr yn Sir Gaerfyrddin a Phowys.

Nododd y Prif Gwnstabl fod yr heddlu wedi cael hysbysiad lefel perfformiad gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) a chanlyniadau arolwg gweithgarwch yr heddlu.  Cytunwyd y byddai'r ddau adroddiad yn cael eu cyflwyno i'r CHTh yn y Bwrdd Plismona ym mis Medi 2026.

**Cam gweithredu: Bydd yr heddlu yn rhannu hysbysiad lefel perfformiad ac adroddiad argymhellion HMICFRS yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ym mis Medi 2026.**

**Gweithgaredd: Bydd yr heddlu yn cyflwyno canlyniadau arolwg gweithgarwch yr heddlu yn y Bwrdd Plismona ym mis Medi 2026.**

### b) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Rhoddodd yr CHTh ddiweddariad byr ynghylch y gweithgareddau a chyfarfodydd yr oedd wedi bod yn rhan ohonynt ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Plismona, gan gynnwys diwrnodau ymgysylltu â'r gymuned yn Rhydaman ac Aberhonddu, cynnal bord gron ar ddiogelwch ar y ffyrdd, a mynychu'r Pwyllgor Dethol Materion Cymreig gyda chomisiynwyr heddlu a throseddu eraill Cymru pan roddodd dystiolaeth ar y cynigion diwygio o safbwynt Cymreig.

### c) Yr wybodaeth ddiweddaraf am gyllid

Darparwyd adroddiad cyllid i'r Bwrdd yn crynhoi'r sefyllfa alldro ddisgwyliedig ddiweddaraf ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2026/7) yn seiliedig ar wariant hyd at 30 Mehefin 2026. Roedd yr alldro rhagamcanedig ar gyfer 2026/7 ym mis Mehefin yn agos iawn at ddefnyddio'r holl gyllideb, a rhagwelir gorwariant bach o £4,000 ar hyn o bryd ar gyfer y flwyddyn.

Roedd y gyllideb a osodwyd ar gyfer 2026/7 yn rhagdybio codiad cyflog o 3% o fis Medi ar gyfer swyddogion a staff. Mae'r rhagamcanion hyn yn seiliedig ar 3%, yn unol â llinell sylfaen y gyllideb. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y DU

y bydd y dyfarniad cyflog i swyddogion o bob rheng o fis Medi 2026 ymlaen yn 3.5%.

Mae pryder ynghylch rhagolygon 2026/7 ar hyn o bryd. Mae gorwariant rhagamcanol o ran cyflog swyddogion heddlu (£1.2 miliwn) a thaliadau goramser swyddogion heddlu (£0.6 miliwn) yn cael ei adrodd amdano yn seiliedig ar y gwariant cyfredol. Er gwaethaf y ffaith bod cyflogau swyddogion yn fwy na'r gyllideb ar eu cyfer, mae dadansoddiad o daliadau goramser swyddogion a dalwyd yn erbyn y gyllideb wedi'u dosbarthu yn ôl maes busnes yn cadarnhau bod taliadau goramser yn ymwneud â phrinder staff yn £69,000 ar gyfer dau fis cyntaf y flwyddyn. Bydd y grŵp monitro taliadau goramser yn trafod y sefyllfa hon ac yn ei monitro'n agos yn y dyfodol, a'r bwriad yw lleihau'r gorwariant i'r lleiafswm. Fodd bynnag, mae angen cydnabod y gall pwysau gweithredol, a digwyddiadau lleol neu genedlaethol sylweddol, effeithio'n sylweddol ar y sefyllfa.

Mae'n debygol y bydd gorwariant rhagamcanedig o ran cyflogau swyddogion heddlu a thaliadau goramser yn cael ei wrthbwyso gan danwariant o ran cyflogau staff yr heddlu (£1.7 miliwn) oherwydd swyddi gwag a'r amser llithriad ar gyfer llenwi swyddi. Mae pwysau o £0.3 miliwn ar gyfer costau tanwydd oherwydd cynnydd mewn prisiau, sy'n cael ei gwmpasu gan drosglwyddiad o gronfeydd wrth gefn yn 2026/7.

Mae ymgymryd â rhagamcanion yn y rhan gynnar hon o'r flwyddyn ariannol bob amser yn heriol ac mae'r rhagolygon ansicr o ran galw'r haf, dyfarniadau cyflog a chyllid, yn ogystal â chwyddiant a symudiadau o ran cyfraddau llog sy'n gysylltiedig â sefyllfa geo-wleidyddol gyfnewidiol yn fyd-eang, yn gwneud hyn yn arbennig o heriol yn y flwyddyn ariannol hon. Bydd mesurau monitro'r gyllideb a rheoli costau gwell yn cael eu rhoi ar waith dros weddill y flwyddyn drwy gyfarfodydd partneru busnes llywodraethiant a chyllid arferol, a'r nod yw sicrhau bod y gyllideb yn cyrraedd y targed.

### d) Yr wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

Darparwyd papur diweddaru i'r Bwrdd gan y Rheolwr Gwybodaeth ynghylch y broses ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

Mae'r Rheolwr Gwybodaeth / Swyddog Diogelu Data wedi bod mewn trafodaethau â Chydweithrediad Heddlu Cymru a swyddogion diogelu data eraill Cymru ac wedi darparu ymateb yr heddlu i ymgynghoriad mewn perthynas â thempled Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data Cymru gyfan. Ochr yn ochr â hyn, datblygwyd templed heddlu newydd gan yr Uwch-reolwr – Llywodraethiant a Newid. Mae'r templed hwn wedi'i anfon at Gydweithrediad Heddlu Cymru a'r swyddogion diogelu data eraill o heddluoedd Cymru gyda chais iddynt ystyried a ellir defnyddio'r templed ar draws heddluoedd Cymru ar gyfer prosiectau cydweithio a defnydd gan heddluoedd unigol. Disgwylir ymatebion, ac mae gan Reolwr Gwybodaeth yr heddlu / y Swyddog Diogelu Data gyfarfod â Chydweithrediad Heddlu Cymru a swyddogion diogelu data Cymru ar 16 Gorffennaf y bydd y mater hwn yn cael ei godi ynddo.

Mae'r Tîm Diogelu Data wedi cynnal trafodaethau â'r Adran TGCh, a'r bwriad yw creu fersiwn electronig o'r templed heddlu arfaethedig. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Tîm Diogelu Data, TGCh, a Thîm Adolygu'r Adran. Mae'r Adran TGCh wedi nodi y bydd yn gallu symud ymlaen gyda datrysiad electronig unwaith y cytunir ar benderfyniad Cymru gyfan. Os cytunir, bydd yr heddlu yn rhannu'r fersiwn electronig â heddluoedd eraill Cymru a gellir ystyried rhannu'n genedlaethol drwy gysylltiadau swyddogion diogelu data, os yw hynny'n dderbyniol i'r heddlu. Y nod hirach yw cysylltu'r gofrestr asedau gwybodaeth, y cofnod o weithgareddau prosesu, a'r rhaglen archwilio cydymffurfedd â'r broses o asesu'r effaith ar ddiogelu data.

Mae'r broses o asesu'r effaith ar ddiogelu data yn parhau i gael ei hadolygu gan y Tîm Adolygu Adrannol a'r bwriad yw cyflwyno cynnig i ailgynllunio'r broses i'r Tîm Diogelu Data mewn gweithdy ar 28 Gorffennaf.

Mae cyfarfodydd blaenoriaethu Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data gyda'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn parhau i gael eu cynnal yn fisol. Mae rhestr flaenoriaethu'r Dirprwy Brif Gwnstabl wedi'i hadolygu a'i diweddaru, ac yn dilyn hyn mae cyfanswm o 14 ffeil wedi'u dosbarthu fel blaenoriaeth. Mae'r gwaith hwn nid yn unig yn cynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data ond hefyd pethau fel contractau prosesu data (sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith), contractau, holiaduron diogelwch ac ati, sydd i gyd yn gysylltiedig â'r asesiadau perthnasol.

Mae Cynghorydd Diogelu Data'r heddlu yn rhan o'r Grŵp Prosiectau a Chyllido a'r Grŵp Asesu Syniadau Digidol, sy'n caniatáu i gyngor cynnar gael ei roi ynghylch gofynion diogelu data megis y gofyniad am Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data pan fo angen.

Bydd yr heddlu yn destun archwiliad mewnol (TIAA) gan gydweithrediad diogelu data a GDPR (Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru) ddechrau mis Awst. Bydd cwmpas yr archwiliad yn cynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data ac adolygiad o brosesau awtomataidd a sut maent wedi lleihau unrhyw ddyblygu.

## e) Yr wybodaeth ddiweddaraf am atal, ymyrraeth ac ymgysylltu

Cyflwynwyd papur diweddaru i'r Bwrdd ynghylch atal, ymyrraeth ac ymgysylltu: ffrwd waith plant a phobl ifanc.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am recriwtio ar gyfer rolau swyddogion atal ieuenctid yr heddlu a rolau swyddogion allgymorth addysg bellach.

## f) Model gweithredu'r heddlu

Cyflawnwyd y gwaith o ehangu cylch gwaith yr Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig, y tu hwnt i raglen beilot gychwynnol Sir Gaerfyrddin, i'w weithredu ledled ardal yr heddlu yn llawn ym mis Hydref 2024. Yn 2025, comisiynwyd Prifysgol Bangor i gynnal adolygiad academaidd, ac adolygiad sy'n canolbwyntio

ar y dioddefwr, o'r swyddogaeth. Disgwylir i'r diweddariad yn ymwneud â 'chanfyddiadau interim hanner ffordd trwy'r adolygiad' gael ei ddychwelyd i'r heddlu yn fuan, a disgwylir yr adolygiad llawn erbyn mis Hydref 2026. Bydd yr 'adolygiad canol cyfnod' hwn yn cefnogi gwerthusiad sy'n canolbwyntio mwy ar yr heddlu. Dechreuwyd ar y gwaith ar 13 Ebrill 2026 wedi i gylch gorchwyl gael ei gymeradwyo gan uwch-noddwyr ar 9 Ebrill.

Mae gwerthusiad wedi'i drefnu i werthuso'r newidiadau a weithredwyd o fewn Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu drwy gydol oes adolygiad yr heddlu a rhaglenni gweithredu'r heddlu. Er nad yw'r cylch gorchwyl wedi'i gytuno arno eto, mae'n debygol y bydd y meysydd canlynol yn destun gwerthusiad:

- Ymgodiad adnoddau a ariennir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Newid rota
- Hollgymhwysedd

Mae'r adolygiad hwn wedi'i drefnu i ddechrau ar 1 Awst 2026 a dod i ben ar 30 Medi 2026.

## 5. Unrhyw fater arall

### a) Ymateb y Prif Gwnstabl i adroddiad HMICFRS: Arolygiad o ymateb rhanbarthol De Cymru i droseddau difrifol a threfnedig

Roedd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ddiolchgar i'r Prif Gwnstabl am yr ymateb i'r adroddiad a byddai ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cael ei rannu â'r heddlu a'i gyhoeddi
maes o law.

### b) Pwyllgor Materion Cymru

Soniodd yr CHTh wrth y Prif Gwnstabl fod Henry Tufnell, yr Aelod Seneddol dros Ganol a De Sir Benfro, wedi gofyn cwestiwn i'r CHTh ynghylch lefel y trais yn erbyn menywod a merched yn Sir Benfro yn ystod gwrandawiad y Pwyllgor Materion Cymreig.

Er mwyn i'r Prif Gwnstabl allu rhoi ymateb priodol i'r AS, gofynnodd y Prif Gwnstabl am eglurhad pellach gan swyddfa Henry Tufnell AS ynghylch eglurhad o ble y daeth yr wybodaeth.

**Cam gweithredu: Bydd SCHTh yn gofyn am ragor o wybodaeth gan swyddfa Henry Tufnell AS ynghylch eglurhad o ble y daeth yr wybodaeth.**

| Cam gweithredu | Crynodeb o gamau gweithredu'r cyfarfod ar 16 Gorffennaf 2026 | I'w yrru yn ei flaen gan |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| PB 133 | Bydd yr heddlu yn datblygu strategaeth a fframwaith ar gyfer y Gymraeg ar gyfer 2027 ymlaen. Dylid mapio'r fframwaith perfformiad ar draws byrddau perthnasol i gefnogi'r ddarpariaeth. Bydd hyn yn cael ei arwain gan y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol. | Yr heddlu |
| PB 134 | Bydd yr heddlu yn rhannu hysbysiad lefel perfformiad ac adroddiad argymhellion HMICFRS yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ym mis Medi 2026. | Yr heddlu |
| PB 135 | Bydd yr heddlu yn cyflwyno canlyniadau arolwg gweithgarwch yr heddlu yn y Bwrdd Plismona ym mis Medi 2026. | Yr heddlu |
| PB 136 | Bydd SCHTh yn gofyn am ragor o wybodaeth gan swyddfa Henry Tufnell AS ynghylch eglurhad o ble y daeth yr wybodaeth. | SCHTh |

CAU